Dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yr haf hwn

9 Ebrill 2020

Dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yr haf hwn

Mae rhagor o fanylion am y camau nesaf a fydd yn cael eu cymryd ar gyfer dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yr haf hwn, yr effeithiwyd arnynt gan bandemig Covid-19, wedi'u cyhoeddi heddiw.

Mae'r rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol a ddilynir gan ddysgwyr yng Nghymru hefyd ar gael yng ngwledydd eraill y DU ac o ganlyniad rydym wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'n cyd-reoleiddwyr wrth i'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud.

Er mwyn sicrhau cysondeb ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn y cymwysterau hyn, bydd yr un dull yn cael ei ddilyn ar gyfer dysgwyr yng Nghymru â'r hyn a nodir gan Ofqual heddiw.

Mae cymhlethdod tirwedd cymwysterau galwedigaethol yn golygu nad yw un dull yn briodol. Mae cyhoeddiad heddiw yn nodi'r egwyddorion a fydd yn cael eu cymhwyso i wahanol grwpiau o gymwysterau galwedigaethol, yn gysylltiedig â'u pwrpas a sut y maen nhw'n cael eu defnyddio gan ddysgwyr ar gyfer dilyniant.

Mae trafodaethau ynglŷn â dulliau gweithredu o ran cymwysterau unigol sy'n cael eu cynnig ar draws ystod o gyrff dyfarnu yn parhau a bydd mwy o fanylion yn cael eu rhannu cyn gynted ag y byddant ar gael.

Rydym ni yn Cymwysterau Cymru yn cymhwyso'r un egwyddorion wrth benderfynu'r dull cywir ar gyfer cymwysterau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i fodloni anghenion

dysgwyr yng Nghymru. Diolch ichi unwaith eto am eich amynedd wrth inni gwblhau'r gwaith yma.

Fel yr amlinellodd ein Prif Weithredwr, Philip Blaker yn ei flog diweddaraf, mae'n hanfodol bwysig ein bod ni'n gwneud y penderfyniadau cywir ar gyfer dysgwyr, canolfannau dysgu, cyrff dyfarnu a chyflogwyr.

Ar gyfer cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r cyrff sector a'r cyrff dyfarnu perthnasol i gytuno ar y ffordd orau ymlaen. Mae'r gyfres hon yn cynnwys amrywiaeth o gymwysterau, y mae rhai ohonynt yn asesu gwybodaeth, tra bod eraill hefyd yn asesu cymhwysedd ymarferol. Bydd gwahanol gymwysterau'n gofyn am wahanol ddatrysiadau.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r pedwar corff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru er mwyn dod o hyd i'r ateb cywir. Byddwn yn rhannu ein dulliau gweithredu o ran y cymwysterau hyn cyn gynted â phosibl.

Byddwn yn cyhoeddi rhagor o gwestiynau cyffredin ar ein dulliau gweithredu o ran cymwysterau galwedigaethol dros y dyddiau nesaf ar ein gwefan ac yn darparu diweddariadau pellach cyn gynted â phosibl.